

PROFIAD MYFYRIWR RHWYDWAITH 75



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Partneriaeth
Cydwasaethau
Shared Services
Partnership

"Yn ystod yr amser a dreuliais yn PCGC ac ar y rhaglen Rhwydwaith75 rwyf wedi datblygu llawer o sgiliau, priodolddau a gwybodaeth yn ymwneud â'm maes gwaith y byddaf yn eu datblygu gyda mi yn ystod fy ngyrfa. Mae gennyf flwyddyn ar ôl ar y rhaglen, a thrwy ymgymryd ag amrywiaeth eang o waith, ac ymdrin ag ystod eang o fodiwlau dros y pedair blynedd diwethaf yn y brifysgol, rwyf wedi cael sylfaen amrywiol y gallaf barhau i adeiladu arni ar ôl i mi raddio. Mae fy nghwrs wedi'i achredu gan y CIPD ar Lefel 5 sy'n werth chweil i'w gyflawni ar y cyd â'm gradd israddedig a fyddai fel arfer yn cael ei hastudio ar wahân yn rhywle arall. Gallaf hefyd ddangos tystiolaeth o'm cynnydd yn ystod y cynllun drwy ddefnyddio CIPD Profession Map sy'n helpu i nodi lefel y gwaith sy'n cael ei wneud. Mae'n teimlo bod gen i nifer anfeidrol o adnoddau o safon y gallaf eu defnyddio er budd i mi yn y gwaith a'r brifysgol. Maent yn cynnwys hyfforddiant (gan gynnwys ar lefel rheoli), trwyddedau i gael mynediad at lwyfannau AD gwerthfawr, grwpiau cenedlaethol, ac yn bwysicaf oll, tîm eclectig a chefnogol sydd bob amser yn hyrwyddo cyfleoedd newydd, yn darparu adborth adeiladol, a chanmoliaeth a oedd yn cynnwys enwebiad ar gyfer gwobr HPMA!

Mae rhai enghreifftiau o'm gwaith yn cynnwys:

- Cymryd nodiadau a chysgodi cydweithwyr mewn cyfarfodydd i gael cysylltiad uniongyrchol a phenodoldeb
- Paratoi adroddiadau ar gyfer cyfarfodydd adrannol, a pharatoi adroddiadau data ad-hoc ar gais yr oedd angen dehongli, gwerthuso a dadansoddi rhai ohonynt
- Dylunio a datblygu pecynnau cymorth, gweithdrefnau gweithredu safonol, siartiau llif ac ati at ddefnydd mewnol ac allanol
- Gwella fy sgiliau Arfarnu Swyddi ac mae gennyf awydd i gael fy hyfforddi mewn meysydd eraill o hyn
- Creu dull o werthuso prentisiaethau newydd a chynnal dadansoddiad o'r canfyddiadau
- Hyfforddi aelodau tîm newydd ar systemau a phrosesau
- Prosesu gwahanol fathau o geisiadau, ymateb i ymholiadau a rhoi cyngor ar bolisiâu
- Diweddarau templedi fel llythyrau a chanllawiau

Mae fy rheolwr llinell bob amser yn egluro pam y dylwn weithio ar ddarn penodol o waith a pha mor berthnasol ydyw i mi a'm datblygiad yn ogystal â'i bwrpas yn y sefydliad. Pan oeddwn i'n 19 oed, roeddwn i'n teimlo bod pum mlynedd yn ymrwymiad mawr, ond gyda chyfuniad o astudio'n rhan-amser a gweithio'n rhan-amser, datblygiad cynyddol o ran llwyth gwaith, ac o weld y buddsoddiad parhaus mae Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru yn ei wneud yn y rhaglen hon, rwy'n dawel fy meddwl fy mod wedi dewis llwybr gwych ac yn teimlo'n ffodus iawn fy mod wedi gwneud hyn. Byddwn yn argymhell hyn yn gryf i unrhyw wasanaeth cydnaws neu ddarpar fyfyrwr oherwydd ei fod mor fuddiol i'r ddwy ochr."



**Lewis
Munro**
**Myfyrwr
Rhwydwaith 75**
2019-2024
**Astudio
Rheoli
Adnoddau Dynol**



Grando a Dysgu



Cymryd Cyfrifoldeb



Gweithio Gyda'n Gilydd



Arloesi